# CYSWLLT

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Papur Newydd Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Gaeaf 2024



**ARWEINYDDIAETH NEWYDD I CBSMT**

Tudalen 2

**ADEILAD NEWYDD Y BENDIGAID CARLO ACUTIS YN DECHRAU**

Tudalen 4

**CWPWL O FEDLINOG YN ENNILL GWOBR AUR**

Tudalen 5



Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu: Tachwedd 2024

## Arweinyddiaeth Newydd i CBSMT

Mewn cyfarfod Cyngor ar Medi 18fed, cymeradwywyd penodi'r Cynghorydd Llafur, Brent Carter yn Arweinydd newydd CBSMT.

Roedd hyn yn dilyn isetholiad mis Medi yn Ward Bedlinog a Threlewis, a welodd y Cynghorydd Gill Preston ennill sedd i'r Grŵp Llafur.

**Yn y Cyfarfod, cadarnhaodd Cynghorydd Carter ei Gabinet Newydd:**

- **Y Cyng David Jones** Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth
- **Y Cyng Gareth Lewis** Aelod Cabinet dros Addysg
- **Y Cyng Jamie Scriven** Aelod Cabinet dros Adfywio, Tai a Gwarchod y Cyhoedd
- **Y Cyng Anna Williams-Price** Aelod Cabinet dros Lywodraethu ac Adnoddau
- **Y Cyng Louise Minett-Vokes** Aelod Cabinet dros Gwasanaethau Cymdeithasol



## Dyfodol Gwasanaethau'r Cyngor: Mae Eich Llais yn Bwysig

Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni bydd y Cyngor hwn, fel llawer o Gynghorau eraill ar draws y wlad, yn edrych yn gyson ar gyfleoedd i arbed arian, tra'n parhau i ddarparu gwasanaethau gwerth am arian i'r cyhoedd.

Mae chwyddiant uchel yn cynyddu ein costau craidd, mae lefel yr angen yn ein cymunedau yn codi ac mewn ymateb, rydym yn cynyddu ac yn gwella ein cefnogaeth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol, cymorth lles a'r digartref.

Rydym yn parhau i wynebu heriau sylweddol yn dilyn cyfnod hir o ostyngiadau yng nghyllid y llywodraeth. Eleni rydym yn gweld bwlch sylweddol yn y gyllideb o tua £8.8M.

Mae'n bwysicach nag erioed i ddweud eich dweud, felly cymerwch amser i gwblhau ein hymgynghoriad cyllideb (gweler tudalen 8) i'n helpu i flaenoriaethu gwasanaethau'r Cyngor a gosod Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod.



**Y Cynghorydd Brent Carter**
Arweinydd y Cyngor

Fel Arweinydd newydd y Cyngor, mae'n bleser gennyf eich croesawu i rifyn y gaeaf o Cyswllt.

Mae'n anrhydedd ac yn fraint cael gwasanaethu fel Arweinydd ac rwy'n eich sicrhau y byddaf yn rhoi popeth i'r rôl hon.

Fel gweinyddiaeth rydym yn cyflwyno newid mewn arddull arwain; un a fydd yn wydn ac yn ddeinamig, ac yn barod ar gyfer yr heriau sydd i ddod.

Byddwn yn onest ac yn dryloyw ac yn gwrando'n astud ar eich barn, tra'n bod yn agored am y dewisiadau anodd y gallwn eu hwynebu.

Yn y rhifyn hwn gallwch chi gwrdd â'n Cabinet newydd, dysgu am adeilad newydd Ysgol Bendigaid Carlos Acutis a darllen am ddau o'n gweithwyr gofal gwych sydd wedi ennill gwobr.

Gallwch hefyd gael gwybodaeth am ailgylchu dros y Nadolig, parcio am ddim yng nghanol y dref a bod yn barod ar gyfer y gaeaf gyda rhifau brys am ddim.

Gan ddymuno tymor Nadolig gwych i chi.

B Carter

## Helo gan Halo!



**Y Cynghorydd Jamie Scriven**
Aelod Cabinet Adfywio

Ni yw'r fenter gymdeithasol a'r elusen gofrestredig sy'n gweithredu Merthyr Tudful Canolfan Hamdden, Canolfan Gymunedol Aberfan a'r parc sblash a'r caffi ym Mharc Cyfarthfa.

Wrth edrych yn ôl ar fisoedd cychwynnol y bartneriaeth rhwng Halo a'r Cyngor mae gennym le i'w ddathlu – rydym wir yn helpu mwy o bobl leol i fod yn fwy egnïol yn amlach!

**Ffitrwydd mewn ffigurau; Rydym wedi cael 117,000 o ymweliadau, gan gynnwys:**

- 29,200 o sesiynau campfa
- 27,000 o nofio
- 700 o blant yn mwynhau gwersi nofio

**Eisiau cymryd rhan?**

**Gwnewch gais am eich tocyn gwestai 7 diwrnod AM DDIM i'r gampfa,Dosbarthiadau nofio ac ymarfer corff grŵp!**

**Ewch at: haloleisure.org.uk/7daypass**

**Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan i gael gwybod beth sydd ar gael yn eich ardal leol.**

halo
www.haloleisure.org.uk







## Cronfa Ffyniant Gyffredin yn buddsoddi £27m ym Merthyr Tudful

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful / Merthyr Tydfil County Borough Council



Mae Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn darparu cyllid i gynghorau ar gyfer cymunedau, lleoedd, busnesau, pobl a sgiliau. Ym Merthyr Tudful Mae hyn yn gyfystyr â buddsoddiad enfawr o £27m.

Dywedodd y Cynghorydd Jamie Scriven: *"Mae cyllid SPF wedi bod yn hwb i'w groesawu o arian ar gyfer prosiectau cymunedol, buddsoddiadau mewn datgarboneiddio, ac ansawdd rhaglenni hyfforddi, ymhlith llawer o bethau eraill."*

*"Rydym eisoes wedi gweld yr effaith gadarnhaol y mae'r prosiectau hyn wedi'i chael; Gan helpu pobl i fod yn fwy cyflogadwy a'u cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial, yn ogystal â gwneud busnesau'n fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac edrychwn ymlaen at weld hyd yn oed mwy o'r manteision hirdymor sydd ar eu cyfer ym Merthyr Tudful."*






**Y Cynghorydd**
**Gareth Lewis**
Aelod Cabinet Addysg

**Mae'r gwaith ar Ysgol Gatholig y Bendigaid Carlo Acutis (BCA), wedi cychwyn yn swyddogol. Cydnabyddwyd y ffaith hon ddydd Gwener y 25ain o Hydref mewn seremoni oedd yn dathlu torri'r sylfeini. Gweinyddwyd y seremoni gan Archesgob Cymru.**

Bydd y cwmni Willmott Dixon yn ymgymryd â'r gwaith o adeiladu ysgol newydd, fydd yn cynnwys 525 o lefydd ysgol cynradd, llefydd meithrin sy'n cyfateb i 63 lle llawn amser a 600 lle ysgol uwchradd.

Bydd y prosiect hwn i greu adeilad newydd yn sicrhau adeilad ysgol o'r radd flaenaf ar gampws cyfredol Ysgol yr Esgob Hedley. Bydd y trefniant newydd yn caniatáu i'r ysgol weithredu'n gyfangwbl o un safle.

**Cynhaliwyd digwyddiad Arweinwyr Ifanc yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful, Ddydd Iau 7 Tachwedd.**

Yn sgil y fenter, dan arweiniad Merthyr Heini, Adran Datblygu Chwaraeon CBSMT, cafodd hyd at 8 o ddisgyblion o bob ysgol gynradd eu recriwtio i gefnogi darpariaeth chwaraeon yn eu hysgolion a reolir gan eu hathrawon ac a gefnogir gan Merthyr Heini.

Arweinwyr Ifanc yw cam cyntaf llwybr arweinyddiaeth chwaraeon Merthyr Heini, sy'n cynnwys rhaglen beilot newydd a fydd yn gweld myfyrwyr TGAU Addysg Gorfforol yn cael cyfle i ennill cymwysterau ychwanegol gan fynd ymlaen i fwydo'r Rhaglen Chwaraeon, Cyflogadwyedd, Hyfforddiant ac Uwchsgilio ar y cyd (SETUP).









**Mae CBSMT wedi llwyddo i sicrhau cyllid o bron i £4 miliwn gan Lywodraeth Cymru o 'Raglen Gyfalaf y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant'.**

Bydd pedwar datblygiad newydd yn cael eu lleoli yma:

SGAN

- **Cylch Meithrin, Trefechan;**
- **Cylch Meithrin, Ysgol Gynradd Santes Tudful;**
- **Cylch Meithrin, Ysgol Gynradd Rhyd y Grug**
- **Darpariaeth cyn-ysgol, Ysgol Gynradd Goetre.**

## Foster with your local authority

There are children in Merthyr who need a foster home. A safe place, a place to learn, and a place to laugh. A place to be loved.

## Maethu gyda'ch awdurdod lleol

Mae yna blant ym Merthyr angen cartref maeth. Lle diogel, lle i ddysgu, a lle i chwerthin. Lle llawn cariad.

maethu cymru Merthyr Tudful

foster wales Merthyr Tydfil

beth allwch chi ei gynnig?
what will you bring to the table?

Ar hyn o bryd mae gennym 83 o blant a phobl ifanc mewn gofal maeth ym Merthyr Tudful; ac mae angen mwy o ofalwyr maeth arnom i sicrhau bod ein holl blant yn cael y gofal a'r cymorth y maent yn eu haeddu.

Ym mis Ionawr lansiodd y rhwydwaith cenedlaethol o 22 o dimau maethu awdurdodau lleol Cymru, Maethu Cymru, ymgyrch i recriwtio 800 o deuluoedd maeth ychwanegol erbyn 2026.



**Y Cynghorydd Louise Minett-Vokes**
Aelod Cabinet
Gwasanaethau Cymdeithasol



01443 425007

merthyrtudful.maethucymru.llyw.cymru
merthyrtydfil.fosterwales.gov.wales

## Cwpwl o Fedlinog yn ennill AUR yn y categori gwobr 'Gwasanaeth Eithriadol'



Mae Gary a Michelle Jones, sydd wedi'u disgrifio fel rhai sy'n "mynd y tu hwnt i rôl gofalwr", wedi gofalu am efeilliaid ag anghenion ychwanegol sylweddol ers bron i 30 mlynedd, ers iddynt fod yn dri mis oed.

Mae Gary hyd yn oed wedi rhoi aren i un o'r efeilliaid ar ôl i'w organau ei hun ddirywio.

Yn ogystal â hyn, enillodd Michelle a Gary y 'Gwobr Ysbryd Gofal'.

### Diolch i bawb a gefnogodd Operation Santa 2024!

Mae eich haelioni wastad yn rhagorol a doedd eleni – hyd yn oed yn ystod y cyfnod heriol hwn – ddim yn gwahanol. Rydych wedi rhoi anrhegion I blant a fyddai o bosib heb gael Nadolig I'w ddathlu. O waelod calon, diolch yn fawr iawn a Nadolig Llawen.

Oddi wrth staff Adran Gwasanaethau Cymdeithasol CBSMT.

### Byddwch yn barod am y gaeaf
Gwybod eich Rhifau Argyfwng AM DDIM!

| | |
|---|---|
| 105 | Argyfwng Torri Pŵer |
| 0800 111 999 | Argyfwng Nwy |
| 01443 425011 | Gofal Cymdeithasol |
| 01685 385231 | Argyfwng Tu Allan i Oriau |
| 01685 384489 | Argyfwng Llifogydd |

**Bydd Casgliadau Coed Nadolig Go iawn yn rhedeg o 7 – 17 Ionawr 2025.**

Bydd yr archeb yn agor ddydd Llun Rhagfyr 2il ac yn cau Dydd Gwener Ionawr 3ydd. Gallwch archebu lle drwy ymweld â:

**merthyr.gov.uk/book-a-christmas-tree-collection**





**Y Cynghorydd David Jones**
Dirprwy Arweinydd a Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdogaeth

## Casgliad Sbwriel

I rai preswylwyr, gallai diwrnod casglu eich sbwriel newid rhwng **Rhagfyr 23ain 2024 a Ionawr 3ydd, 2025.**

Edrychwch ar y dyddiadau diwygiedig, os gwelwch yn dda. Diwrnodau casglu ar gyfer eich sbwriel ac ailgylchu yn ystod cyfnod yr ŵyl.

| Diwrnod Casgliad Arferol | Diwrnod Casglu |
|---|---|
| Dydd Llun 23 Rhagfyr | Dim Newid |
| Dydd Mawrth 24 Rhagfyr | Dim Newid |
| Dydd Mercher 25 Rhagfyr | Dydd Gwener 27 Rhagfyr |
| Dydd Iau 26 Rhagfyr | Dydd Sadwrn 28 Rhagfyr |
| Dydd Gwener 27 Rhagfyr | Dydd Sul 29 Rhagfyr |
| Dydd Llun 30 Rhagfyr | Dim Newid |
| Dydd Mawrth 31 Rhagfyr | Dim Newid |
| Dydd Mercher 1 Ionawr | Dydd Iau 2 Ionawr |
| Dydd Iau 2 Ionawr | Dydd Gwener 3 Ionawr |
| Dydd Gwener 3 Ionawr | Dydd Sadwrn 4 Ionawr |

Rhaid i ni ailgylchu **70%** o'r gwastraff rydym yn ei gasglu

Dim ond **64%** rydym yn ei ailgylchu ar hyn o bryd



**Mae llawer i'w wneud o hyd...**

Llynedd fe anfonom **10,000 tunnell** o wastraff bin olwynion i'w losgi mewn gwaith **Ynni o Wastraff**

Gallai **5000 tunnell** ohonno fod wedi ei ailgylchu

Roedd **3000 tunnell** yn wastraff bwyd



Os byddai pawb ym Merthyr Tudful yn ailgylchu bwyd gartref, byddai ein cyfradd ailgylchu yn cynnyddu o

**10%**



Fel preswylwyr mae cyfrifoldeb ar y cyd arnom i ailgylchu gymaint ag y gallwn



Gan arbed yr adnoddau gwerthfawr hyn i genedlaethau'r dyfodol

Os ydym yn methu cyrraedd y targed 70%, bydd y Cyngor yn cael ei ddirwyo £52k am bob 1% o dan y targed.

**DIRWYWYD**

**Bydd hyn yn cael effaith ar wasanaethau eraill**

Gallwch arbed hyn wrth ddefnyddio y gwasanaethau ailgylchu a ddarperir



**ARCHEBWCH EICH CYNWYSYDDION AILGYLCHU HEDDIW!**

**Cofiwch...**

- ✔ Atal gwastraff trwy ddewis ailddefnyddio, rhoi neu atgyweirio cyn ailgylchu
- ✔ Peidiwch byth â rhoi deunydd y gellir ei ailgylchu yn eich bin sbwriel, gallech dderbyn dirwy a chaiff yr adnoddau hynny eu colli am byth

## Wyddoch chi...

Gellir ailgylchu cardiau. Tynnwch ran flaen y cerdyn neu unrhyw rannau sy'n cynnwys Llwch hud, rhubanau, ac addurniadau cyn eu hailgylchu yn y blwch ailgylchu cardbord. Mae modd ailgylchu papur lapio cyn belled nad yw'n seiliedig ar ffoil – i wirio hyn, gwasgwch yn eich llaw.

Os yw'n agor, bydd yn seiliedig ar ffoil ac ni ellir ei ailgylchu. Os yw'n aros wedi ei wasgu, gellir ei ailgylchu. Rhowch bapur lapio ailgylchadwy gyda'ch papur.

## PWYSIG!

Bydd Ein Canolfannau Ailgylchu Cartrefiar gau Dydd Nadolig, Dydd Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.

Oriau agor y gaeaf yw 9.00am - 4.30pm
Sylwch: Mae Canolfan Dowlais ar gau bob dydd Mawrth ac mae Canolfan Aberfan ar gau bob dydd Mercher.

**Defnyddiwch eich gorchudd blwch ailgylchu!**

Pan fydd Cardfwrdd a phapur yn wlyb, mae'n fwy anodd ei ailgylchu gan bod lleithder yn sylweddol yn gwanhau'r ffibrau a'u gwneud nhw'n anoddach i'w tynnu at ei gilydd i greu deunyddiau newydd.

Mae'n bwysig ein bod yn cadw deunyddiau yn sych gan ddefnyddio y gorchuddion a ddarper-ir ar gyfer eich bocsys. Os bydd angen unrhyw orchuddion ychwanegol.

Cysylltwch â ni ar **01685 725000**












## Dweud Eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Cwblhewch ein harolygon a'n hymgynghoriadau drwy ymweld â:
**merthyr.gov.uk/DweudEichDweud**



Y Cynghorydd Anna Williams-Price
Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol

## Mae ein hymgynghoriad cyllideb yn fyw!

Rydym eisiau gwybod beth yw eich blaenoriaethau gwasanaeth a sut y credwch y dylai'r **Cyngor osod Treth y Cyngor ar gyfer 2025/26.**

Mae ein harolwg byr ar gael tan **ddydd Sul Ionawr 19eg 2025.**

**smartsurvey.co.uk/s/MTCBCBudget25-26**




Ymuno â'n Panel Dinasyddion i chwarae rhan wrth wellabywydau'r rhai sy'n byw yn ein Bwrdeistref Sirol.
**merthyr.gov.uk/CitizensPanel**










C200 Cyfarthfa

**Yn 2025, bydd Castell Cyfarthfa yn dathlu ei daucanmlwyddiant.**

Yn ystod y flwyddyn bydd rhaglen o hwyl, digwyddiadau cyffrous a llawn gwybodaeth.

Bydd arddangosfeydd yn cael eu cynnal yn amlygu ei bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol a dathlu'r hanes i bobl a chymunedau.

**cyfarthfafoundation.wales/cyfarthfa200**

Rydym yn gyffrous i gyhoeddi lansiad **Menter Cornel Glyd, Prosiect Multiply Merthyr Tudful.**
Bydd yn darparu cyllid i leoliadau cymunedol lleol i sefydlu corneli clyd yn eu hardaloedd, gan wasanaethu fel mannau croesawgar lle y gall aelodau'r gymuned ymgynnull, cadw'n gynnes, a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn ystod y misoedd oerach.

| | | |
|---|---|---|
| Bedlinog Inn, CF46 6TG **01443 553208** | Hyb Cymunedol Twyn, CF47 0TD **01685 709430** | Eglwys Hope, CF47 8UG **01685 370745** |
| Cyngor Cymuned Bedlinog a Threlewis, CF46 6TF **07800 708532** | Sefydliad Gellideg, CF48 1ND **01685 383929** | Canolfan Willows, CF48 4DX **01443 692198** |
| Peiriandy Dowlais, CF48 3HA **01685 375318** | Clwb Bechgyn a Merched Treharris, CF46 5HG **01443 410841** | HFactor, CF48 4QL **01443 699236** |
| Canolfan Gymuned Dowlais, CF48 3LP **01685 375331** | Tai Merthyr Valley Homes, CF48 1HA **01685 727772** | |